

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint

Mawth 2016

Y negeseuon allweddol

Pennu cyfeiriad y Cynllun at y dyfodol

Rhowch eich barn

Cynnwys

1	Cyflwyniad	t1
2	Ble'r ydym ni'n awr?	t1
3	I ble'r ydym yn ceisio mynd?	t2
4	Y weledigaeth	t2
5	Materion sy'n wynebu'r Cynllun	t
	Cyfoethogi bywyd cymunedol	t
	Sicrhau twf a ffyniant	
	Diogelu'r amgylchedd	
6	Amcanion y Cynllun	t
7	Symud ymlaen	t
8	Categoreiddio aneddiadau	t
	Arolygon aneddiadau	
	Categoreiddio aneddiadau – y dewisiadau	
9	Y camau nesaf	t
10	Sut i gyflwyno sylwadau	t
Atodiadau:		
1	Papur trafod – arolygon aneddiadau a chreu bandiau sylfaenol	t

2	Papur trafod – categoreiddio aneddiadau – y dewisiadau	t
----------	---	----------

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint

**Y negeseuon allweddol – pennu cyfeiriad y Cynllun at y dyfodol.
Rhowch eich barn.**

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cyngor yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) sy'n ymdrin â'r cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2015 a 2030 a, phan gaiff ei fabwysiadu, bydd yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) mabwysiedig. Bydd y CDLI yn cynnwys polisiau a chynigion a fydd yn darparu ar gyfer anghenion datblygu'r Sir yn ystod oes y Cynllun a hefyd yn diogelu asedau cymdeithasol ac amgylcheddol y Sir.

2. Ble'r ydym ni'n awr?

Mae'r Cyngor wrthi'n dechrau paratoi'r Cynllun ac mae'r gwahanol gamau yn y broses i'w gweld yng Nghytundeb Cyflenwi'r Cyngor. Dyma grynodeb o'r cynnydd a wnaed hyn yma:

- galwyd am **Safleoedd Posibl** a chyhoeddwyd **Cofrestr** o'r holl safleoedd dilys a gyflwynwyd
- mae **Asesiad o'r Safleoedd Posibl** ar y gweill – mae proses ymgynghori mewnol ac allanol yn mynd rhagddi fel rhan o'r gwaith o asesu'r 734 safle posibl a gyflwynwyd
- cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch **Papur Cefndir i ddatblygu Methodoleg Asesu Safleoedd Posibl**. Roedd hwn yn esbonio'r fethodoleg i'w defnyddio i asesu'r safleoedd posibl. Cyhoeddwyd papur diwygiedig yn dilyn y broses hon
- ymgynghorwyd ynghylch cyfres o **18 o Bapurau Pwnc** yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau a materion a chyhoeddwyd fersiynau diwygiedig os cytunwyd ar newidiadau
- ar y cyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, penodwyd ymgynghorwyr Arc4 i gynnal **Asesiad o'r Farchnad Dai**, a chyhoeddwyd yr Asesiad
- penodwyd Arc4 i gynnal **Arolwg Deiliadaeth Tai** o bob eiddo a adeiladwyd / addaswyd dros y 5 mlynedd diwethaf i ddeall y farchnad dai leol yn well
- penodwyd Arc4 i gynnal **Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr**
- ar y cyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, cynhaliwyd **Astudiaeth o Anghenion Tir Cyflogaeth** a gaiff ei chyhoeddi cyn bo hir. Comisiynwyd gwaith dilynol hefyd i roi amcanestyniad o senarios twf economaidd a thwf seiliedig ar swyddi a bydd hyn yn bwydo i'r gwaith o fodelu natur y boblogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol
- penodwyd ymgynghorwyr ar y cyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam i gynnal gwaith i fesur pa mor ddichonadwy yw'r safleoedd datblygu

- cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y **Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol** a gaiff ei ddefnyddio i gael safbwyntiau amrywiol yn ystod camau allweddol o'r broses o baratoi'r Cynllun. Mae'r Fforwm wedi ystyried gweledigaeth ac amcanion y Cynllun
- penodwyd cwmni ymgynghori Hyder i gynnal **Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Cynaliadwyedd** ac **Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd**, ac ymgynghorwyd ynghylch Adroddiad Cwmpasu drafft yr Arfarniad Cynaliadwyedd
- dechreuwyd amrywiaeth o astudiaethau eraill gan gynnwys **adolygiad o'r rhwystr glas, astudiaeth o gapasiti trefol, asesiad Iaith Gymraeg, ac Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd**
- penodwyd COFNOD (Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru) i ymgymryd â'r gwaith o fapio bioamrywiaeth yn y prif drefi ac aneddiadau yn yr ardaloedd lle mae pwysau o ran datblygu
- cynhaliwyd asesiad o wasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau ac ymgynghorwyd a chynghorau tref a chymuned

Ar y wefan mae gwybodaeth am agweddau amrywiol ar y CDLI yn ogystal ag unrhyw astudiaethau a gwblhawyd, ewch i:

<http://www.sirymfflint.gov.uk/en/Resident/Planning/Flintshire-Local-Development-Plan.aspx>

3. I ble'r ydym yn ceisio mynd?

3.1 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at baratoi ac ymgynghori ynghylch y Cynllun Ymgynghori Drafft cyn ei Adneuo a fydd yn esbonio'r Strategaeth y mae'r Cyngor yn ei Ffario h.y. maint y twf sy'n gysylltiedig â'r Cynllun a sut y caiff y twf hwnnw ei ddsbarthu'n ofodol drwy'r Sir. Cyn hynny, bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ynghylch amrywiaeth o opsiynau twf a opsiynau gofodol cyn penderfynu ar y Strategaeth ddrafft a Ffeirir o fewn y Cynllun cyn ei adneuo.

3.2 Cyn ymgynghori ynghylch yr opsiynau twf ac opsiynau gofodol, fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn bwysig paratoi dogfen gychwynnol a fyddai'n esbonio'r cefndir o ran y gwersi a ddysgwyd o'r sail dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, a'r broses ymgysylltu gychwynnol, a hefyd i roi cyfle i randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd roi eu barn gychwynnol am y modd y mae'r Cynllun yn datblygu a'r modd y dylid ei llywio. Drwy hyn, dylai fod y Cyngor yn gallu gweld bod y Cynllun ar y trywydd iawn a dylai fedru datblygu cyfres o opsiynau twf ac opsiynau gofodol realistig.

4. Y weledigaeth

4.1 Mae angen seilio pob CDLI ar weledigaeth yn ymwneud â'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni dros oes y Cynllun. Mae'r Cynllun wedi paratoi Gweledigaeth ddrafft a drafodwyd yn Fforwm y Rhanddeiliaid Allweddol ac ystyrir bod y ddogfen hon yn sylfaen gadarn ar gyfer paratoi a gweithredu'r Cynllun. Defnyddiwyd gwybodaeth a gafwyd yn Strategaeth Gymunedol / Cynllun Integredig Unigol y Cyngor hefyd wrth baratoi'r weledigaeth isod.

Mae'r CDLI yn ymwneud â phobl a lleoedd. Mae'n ceisio sicrhau cydbwysedd cynaliadwy a pharhaol sy'n darparu ar gyfer anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sir y Fflint a'i phobl, a hynny drwy fanteisio ar ei sefyllfa unigryw fel porth rhanbarthol ac fel ardal sy'n denu buddsoddiad economaidd gan hefyd ddiogelu ei hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol.

C1 A ydych yn cytuno â'r Weledigaeth ar gyfer y CDLI? Os nad ydych yn cytuno, sut a pham y dylid ei newid, yn eich barn chi?

5. Materion sy'n wynebu'r Cynllun

5.1 Wrth baratoi'r Cynllun, nodwyd nifer o faterion y bydd angen ymdrin â nhw wrth iddo ddatblygu. Mae pob Papur Pwnc yn ymdrin â nifer o faterion ac mae'r prif faterion wedi'u grwpio o dan themâu cyffredinol datblygu cynaliadwy h.y. **cyfoethogi bywyd cymunedol, sicrhau twf a ffyniant a diogelu'r amgylchedd**. O dan bob un o'r tair thema, mae nifer o 'brif faterion' ac mae pob un o'r rhain yn cyfeirio at nifer o faterion neu ystyriaethau allweddol. Nid yw pob un o'r materion yn y Papurau Pwnc wedi'u cynnwys isod gan fod y Papurau i'w gweld ar y wefan fel rhan o sail dystiolaeth y Cynllun. Drwy grwpio a nodi'r materion allweddol o dan 'themâu' a 'phrif faterion', mae'n dechrau creu sylfaen i ymdrin â nhw drwy ddatblygu polisiau addas.

Cyfoethogi bywyd cymunedol

5.2 Sicrhau bod cymunedau'n gallu manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau, fel addysg ac iechyd, i ganiatáu i fywyd cymunedol ffynnu, i ddiwallu anghenion grwpiau penodol, fel yr henoed

Materion ac ystyriaethau:

- Diffyg cyfleusterau a gwasanaethau
- Ymdrin â diffygion ansoddol a meintiol mewn mannau agored
- Sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn cynnwys neu'n cyfrannu at fannau agored sydd wedi'u cynllunio'n dda a'u bod yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw'n briodol
- Sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau hygyrch ar gael
- Y pwysau ariannol ar gyfleusterau a gwasanaethau – nifer / lleoliad / hygyrchedd h.y. nid yw'n realistig i bob anheddiad fod ag amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau a chyfleusterau ond dylent fod ar gael mewn aneddiadau gerllaw
- A ddylai cyfleusterau a gwasanaethau ymateb i ddatblygiadau neu a ddylent ddylanwadau ar leoliad datblygiadau?
- Darparu canolfannau a chyfleusterau iechyd
- Sicrhau bod cyfleusterau addysg ar gael neu y gellir eu darparu
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu, lle bo angen, at wella ysgolion os oes prinder lle yn yr adeilad presennol
- Sicrhau bod cyfleusterau addysg yn hygyrch i gymunedau lleol, a sicrhau'n benodol bod y daith yno'n ddiogel ac yn gyfleus i blant iau
- Gwarchod a diogelu hunaniaeth cymunedau

C2 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?



5.3 Hybu prosiectau i ddatblygu canol trefi a chanolfannau rhanbarthol fel rhan ganolog o raglenni adfywio

Materion ac ystyriaethau:

- Cydnabod rôl canol trefi / canolfannau rhanbarthol / canolfannau lleol o ran darparu gwasanaethau a chyfleusterau a cheisio'u cynnal neu eu gwella drwy gynlluniau adfywio neu gynlluniau eraill
- Ceisio mynd i'r afael â'r dirywiad yn ein cymunedau oherwydd problemau'n ymwneud â rheoli a chynnal a chadw tir y cyhoedd ac adeiladau, unedau gwag a diffyg cynnal a chadw.
- Sut i ddenu buddsoddiad newydd i ganolfannau trefi

C3 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.4 Hyrwyddo system drafnidiaeth gynaliadwy a diogel sy'n golygu nad yw pobl yn dibynnu cymaint ar y car

Materion ac ystyriaethau:

- Yr angen i ddatblygu system drafnidiaeth gydgysylltiedig sy'n cynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, bysiau, beiciau a cherdded a chydabod sut y gellir defnyddio canol trefi fel canolfannau trafndiaeth
- Allgáu cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig
- Rhannau o'r boblogaeth sy'n cael eu hallgáu'n gymdeithasol
- Sut y gall pobl heb gar preifat deithio i'r gwaith e.e. ei gwneud yn haws cyrraedd Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy

- Ymdrin â'r posibilrwydd o wella'r system rheilffordd o ran cludo nwyddau a theithwyr e.e. yr angen i ddatblygu gorsaf rheilffordd newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
- Trafnidiaeth gyhoeddus – dulliau a llwybrau
- Ystyried defnyddio hen lwybrau rheilffordd segur a llwybrau eraill posibl at ddibenion hamdden / cymudo
- Nodi lleoedd lle nad yw'r rhwydwaith ffyrdd presennol yn ymdopi â nifer y cerbydau a lle y ceir tagfeydd, a'r posibilrwydd o ddatblygu cynlluniau i godi ffyrdd newydd / gwella ffyrdd
- Cydnabod y manteision iechyd sydd ynghlwm wrth hyrwyddo dulliau o deithio fel cerdded a beicio
- Sicrhau bod Maes Awyr Penarlâg yn parhau i weithredu
- Ystyried rôl Doc Mostyn ac afon Dyfrdwy fel coridor trafndiaeth
- Cynllunio a rheoli ffyrdd i arafu traffig, gwella diogelwch a lleihau tagfeydd

C4 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.5 Hwyluso system drafndiaeth angenrheidiol, y seilwaith cyfleustodau a'r seilwaith cymdeithasol / cymunedol

Materion ac ystyriaethau:

- Capasiti a'r rhwydwaith trin dŵr
- Capasiti cyflenwi dŵr
- Diffyg buddsoddiad amserol mewn seilwaith e.e. cyfleusterau trin dŵr ar gyfer datblygiadau - pwysau ar ddarparwyr gwasanaethau i ymateb - bwydo i gynlluniau darparu gwasanaethau a darparwyr
- Angen dealltwriaeth well o'r seilwaith
- Ynni – cynhyrchu ynni adnewyddadwy, arbed ynni
- Deall y posibiladau o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y Sir wrth ddatblygu polisïau a chynigion addas

C5 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.6 Hwyluso systemau cynaliadwy i drin gwastraff

Materion ac ystyriaethau:

- Nodi anghenion rheoli a gwaredu gwastraff yn y dyfodol – Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru
- Yr angen i ddyrannu safleoedd penodol yn hytrach nag ardaloedd chwilio
- Cyfrannu at rwydwaith digonol o osodiadau gwaredu a rheoli gwastraff
- Cynllunio datblygiadau tai a datblygiadau eraill i hwyluso ailgylchu
- Sicrhau bod y peryglon sydd ynghlwm wrth safleoedd tirlenwi segur a gweithredol, o gofio'r gwaddol tirlenwi mewn rhannau o'r Sir, yn cael eu lleihau drwy gyfeirio datblygiadau sensitif oddi wrth safleoedd amhriodol
- Adolygu'r safleoedd cyflogaeth presennol i nodi'r rhai sy'n gallu ymdopi â chyfleusterau rheoli gwastraff

C6 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.7 Diogelu a hybu'r Gymraeg

Materion ac ystyriaethau:

- Nodi'r defnydd o'r Gymraeg yn y Sir a nodi tueddiadau lle mae'r iaith yn ffynnu neu'r dirywio
- Asesu effaith dyraniadau tai arfaethedig ar y Gymraeg, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol

C7 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.8 Creu lleoedd sy'n ddiogel, yn hygyrch ac yn hybu iechyd, lles a chydaddoldeb

Materion ac ystyriaethau:

- Rhoi pwyslais ar greu tir cyhoeddus diogel, o safon fel rhan o ddatblygiadau newydd
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn hygyrch i bob defnyddiwr
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn creu amodau sy'n arwain at fywyd iach

C8 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

Sicrhau twf a ffyniant

5.9 Hwyluso twf ac amrywiaeth yn yr economi leol a chreu rhagor o swyddi uchel eu gwerth i weithwyr medrus mewn sectorau allweddol

Materion ac ystyriaethau:

- Cydnabod pwysigrwydd economi Sir y Fflint i Gymru a Gorllewin Swydd Caer / Cilgwri
- Ystyried datblygiadau'r Cynghrair rhwng Glannau Mersi a Glannau Dyfrdwy a Phwerdy Gogledd Lloegr o ran eu goblygiadau i economi Sir y Fflint
- Gorddibyniaeth ar weithgynhyrchu ac eto mae Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn canolbwyntio ar uwchweithgynhyrchu
- Canolbwyntio ar storio a dosbarthu fel y Porth i'r Gogledd
- Diwydiant twristiaeth nad yw wedi'i ddatblygu/cydgysylltu'n ddigonol – canlyniadau prosiect rheoli cyrchfannau ymwelwyr .
- Y gallu i fanteisio ar gyfleoedd gwaith
- Yr angen i adolygu dyraniadau diwydiannol hŷn – ffyrdd newydd o'u defnyddio?
- Sicrhau bod safleoedd a dyraniadau cyflogaeth presennol yn cael eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol
- Diffyg dealltwriaeth o anghenion tebygol y farchnad dros oes y Cynllun o ran lleoliad, maint a natur y safleoedd
- Yr angen i sicrhau bod digon o weithwyr ar gael sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol
- Beth yw targed y Cyngor / Llywodraeth Cymru o ran creu gwaith a sut y mae hyn yn gydnaws â gofynion datblygu?
- Mynd i'r afael ag anghenion a goblygiadau diwydiannau arbennig a pheryglus a sicrhau bod y gymuned yn ddiogel
- Yr angen i sicrhau bod cyflenwad cynaliadwy o fwynau dros oes y Cynllun a bod pwysigrwydd economaidd cloddio am fwynau'n cael ei gydbwysu â'r effaith ar yr amgylchedd

C9 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.10 Hybu datblygiadau sy'n golygu bod Sir y Fflint yn lle cystadleuol yn economaidd, ac yn sbarduno twf economaidd yr is-ranbarth

Materion ac ystyriaethau:

- Yr angen i nodi a sicrhau'r safleoedd strategol priodol – lleoliad, maint, natur i ddiwallu anghenion yn awr ac yn y dyfodol (yn seiliedig ar farn fwy gwybodus na'r dull traddodiadol o or-ddyrannu) naill ai drwy ddyraniadau neu drwy ddilyn polisi hyblyg ond cadarn

- Cydnabod cwmnïau sy'n allweddol i'r economi leol fel Airbus, Tata, Toyota etc
- Ymdrin ag effaith Porth y Gogledd a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a pharatoi'r llwyfan ar gyfer gweddill oes y Cynllun
- Cydnabod canolfannau twf a'u cysylltiad ag aneddiadau cyfagos at ddibenion adfywio a lledaenu cyfoeth

C10 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.11 Atgyfnerthu a gwella canol trefi a chanolfannau rhanbarthol Sir y Fflint fel cyrchfannau llewyrchus o safbwynt siopa, hamdden, diwylliant, addysg a busnes

Materion ac ystyriaethau:

- Mynd i'r afael ag effeithiau'r cyni economaidd a newidiadau diwylliannol fel siopa ar-lein
- Wrth i'r economi wella, a fydd bwrlwm y gorffennol yn dychwelyd i ganol ein trefi ynteu a yw eu swyddogaeth o safbwynt siopa wedi newid yn sylfaenol
- Angen ymdrin â rôl a swyddogaeth canol ein trefi - a'i siopau'n bennaf ynteu cyfuniad o swyddogaethau?
- Sut i reoli /atal siopau canol y dref rhag cau – adolygu'r polisi ardal siopa craidd ac ystyried dulliau eraill o weithredu
- Pwysigrwydd economi'r nos - yn enwedig gan fod pobl yn byw yng nghanol ein trefi ee uwchben siopau.
- A oes angen rheoli mathau arbennig o ddatblygiadau e.e. siopau bwyd parod oherwydd pryderon ynghylch iechyd?
- Angen ailystyried hierarchaeth siopau - rôl a swyddogaeth pob canol tref/ canolfan ranbarthol / canolfan leol h.y. a oes angen polisiau penodol ar gyfer pob canolfan wahanol ynteu a fyddai un polisi cyffredin yn gwneud y tro?
- Defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ym mhrif gynlluniau canol trefi ac archwiliadau o gyflwr canol trefi
- Penderfynu a oes angen rhagor o leoedd adwerthu ac, os felly, nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau adwerthu newydd gan sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau cefn gwlad, fel siopau a thafarndai, yn cael eu diogelu, a'u darparu pan fo modd.

- Penderfynu a oes gan gynlluniau parcio a theithio ran yn yr ymdrech i hwyluso a hybu canol trefi iach
- Yr angen i ddiogelu cyfleusterau siopa lleol a gwledig

C11 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.12 Sicrhau bod gan Sir y Fflint ddigon o dai, o'r maint a'r math priodol, i hybu datblygu economaidd ac i ddiwallu amrywiaeth o anghenion tai

Materion ac ystyriaethau:

- Darparu digon o dai i ddiwallu anghenion lleol ac i sicrhau bod digon yn symud i fyw i'r ardal i hybu dyheadau'r Cynllun o ran twf economaidd
- Deall ac ymdrin â'r prinder tai yn y CDU
- Cynnal asesiad trylwyr o'r banc tir presennol ar gyfer tai a chaniatáu datblygiadau ar safleoedd bach a hap-safleoedd
- Darparu tai sy'n diwallu anghenion y farchnad gyffredinol yn ogystal â thai fforddiadwy a thai arbenigol fel tai i bobl oedrannus a lle i Sipsiwn a Theithwyr fyw.
- Pennu nifer briodol a chyraeddadwy o dai fforddiadwy ar gyfer ardal y Cynllun ar sail angen lleol a dichonolrwydd
- Sicrhau y gellir cynnal cyflenwad tir am 5 mlynedd yn ystod oes y Cynllun
- Datblygu fframwaith polisi i bennu cyfraniadau datblygwyr, drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, neu ar ffurf arall, oherwydd effaith y datblygiad ar y gymuned a'r seilwaith.

C12 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?



5.13 Sicrhau bod datblygiadau tai'n mynd rhagddynt mewn lleoliadau cynaliadwy, ar safleoedd dichonadwy a bod y seilwaith cymdeithasol, amgylchedd a ffisegol angenrheidiol ar gael

Materion ac ystyriaethau:

- Angen mwy o bwyslais ar ddatblygu tai – safleoedd dichonadwy
- Sicrhau bod dyraniadau tai'n arwain at waith cysylltiedig i wella'r seilwaith pan fo angen
- Sicrhau bod dyraniadau tai mewn lleoliadau addas, ac yn seiliedig ar strategaeth aneddiadau a lleoliadau cynaliadwy ac archwiliadau manwl o aneddiadau
- Sicrhau bod seilwaith ffisegol, amgylcheddol a chymdeithasol ar gael, neu'n bosibl, gan gynnwys e.e. rhwydwaith ffyrdd digonol
- Sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng dyraniadau tai ac ardaloedd twf economaidd
- Sicrhau bod dyraniadau tai mewn ardaloedd sy'n ddigon hyfyw i fedru codi tai fforddiadwy ynddynt etc
- Sicrhau bod y banc tir tai presennol yn cael ei ddefnyddio'n llawn cyn dewis dyraniadau tai newydd
- Ystyried yr angen i adolygu rhwystrau gwyrdd a ffiniau aneddiadau

C13 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.14 Hyrwyddo a gwella economi wledig amrywiol a chynaliadwy

Materion ac ystyriaethau:

- Angen creu amrywiaeth yn yr economi wledig naill ai wrth i ffermydd arallgyfeirio neu drwy ddatblygu mewn aneddiadau ac ar y cyrion – dyrannu safleoedd neu bolisïau hyblyg?
- Pa mor realistig yw aildefnyddio adeiladau gwledig fel ysguboriau i greu gwaith?
- Defnyddio asedau naturiol fel ynni adnewyddadwy
- Sicrhau bod dulliau sensitif a chynaliadwy'n cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion tai mewn ardaloedd gwledig e.e. anghenion lleol ac anheddau mentrau gwledig.

C14 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.15 Hybu datblygiadau twristiaeth cynaliadwy

Materion ac ystyriaethau:

- Diwydiant ymwelwyr nad yw wedi'i ddatblygu/cydgysylltu'n ddigonol – defnyddio canlyniadau prosiect rheoli cyrchfannau ymwelwyr i greu fframwaith strategol i hybu twristiaeth yn y Sir e.e. lleoedd i aros ac atyniadau
- Cydnabod bod twristiaeth yn newid – pobl yn aros am ddwy neu dair noson a lleoedd newydd / arloesol i aros
- Cydnabod bod twristiaeth yn rhywbeth sy'n digwydd fwyfwy drwy gydol y flwyddyn
- Angen polisïau hyblyg i ymdopi â'r newidiadau yn y diwydiant ymwelwyr ac yn yr hyn y mae defnyddwyr yn chwilio amdano
- Diogelu a gwella asedau naturiol h.y. yr arfordir, tirweddau allweddol etc
- Cydnabod pwysigrwydd digwyddiadau sy'n denu ymwelwyr fel Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug
- Yn ogystal â gwella atyniadau fel Dyffryn Maes Glas, mae angen ystyried a datblygu cyrchfannau newydd fel Treffynnon a Phenarlâg

C15 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?



Diogelu'r Amgylchedd

5.16 Lleihau'r ffactorau sy'n achosi ac yn effeithio ar y newid yn yr hinsawdd a llygredd

Materion ac ystyriaethau:

- Cydnabod bod llifogydd yn debygol rhannau o'r Sir (arfordirol ac afonol) e.e. ar hyd Aber Afon Dyfrdwy ond cydnabod hefyd bod llifogydd yn debygol mewn lleoliadau penodol e.e. oherwydd dŵr wyneb
- Deall natur y perygl yn y Sir o ran llifogydd arfordirol, afonol, dŵr wyneb
- Cydnabod bod tywydd eithafol yn fwy tebygol
- Ystyried lleoliad / cynllun datblygiadau gan fabwysiadu dulliau rhagofalus, hirdymor wrth ddod i ddeall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd e.e.drwy fesurau dylunio fel SDCau
- Ymdrin â llygredd golau, sŵn etc yn y Sir wrth ddewis safleoedd datblygu
- Nodi cyfyngiadau ffisegol ar ddatblygiadau o ran tir halogedig ac ansefydlog (gan ystyried trefn chwilio safleoedd Polisi Cynllunio Cymru a'r flaenoriaeth a roddir i safleoedd tir llwyd

C16 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.17 Diogelu a gwella asedau amgylcheddol gorau Sir y Fflint gan gynnwys ei thirwedd, ei threftadaeth ddiwylliannol a'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig

Materion ac ystyriaethau:

- Sicrhau bod statws Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Glyn Dyfrdwy yn cael ei gydnabod. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch a roddir yr un pwysigrwydd cenedlaethol i'r statws hwn ag a roddir i'r Parciau Cenedlaethol.
- Presenoldeb nifer o ddynodiadau Ewropeaidd a chynefinoedd gwarchoddedig eraill drwy'r Sir a'r goblygiadau o ran y strategaeth ofodol.
- Presenoldeb madfallod cribog mewn nifer o aneddiadau, yn enwedig Bwcle
- Mae rhai'n ystyried bod gan yr ardal gysylltiadau diwylliannol cryfach â Gogledd-orllewin Lloegr na gweddill Cymru
- Defnyddio'r wybodaeth yn y system Landmap i sicrhau bod nodweddion y dirwedd yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn rhan o'r cynigion datblygu
- Cynnwys y dirwedd a'r nodweddion bioamrywiol presennol yn y cynigion datblygu a gwella gwerth ecolegol safleoedd
- Asesu a ddylai'r Cynllun nodi tirweddau arbennig neu dirweddau lleol sy'n gyrchfannau poblogaidd
- Nodi ardal arfordirol ac adolygu'r polisi presennol
- Diogelu amgylchedd adeiledig ac amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol y Sir gan gynnwys adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, henebion a thirweddau hanesyddol, parciau a gerddi gan ganiatáu newidiadau a gaiff eu rheoli'n ofalus.

C17 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.18 Cynnal a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd

Materion ac ystyriaethau:

- Nodi'r rhwydweithiau a'r bylchau presennol y mae angen eu llenwi i wella cysylltiadau

- Cydnabod bod Aber Afon Dyfrdwy yn fan agored llinol a bod cyfle i'w gwneud yn haws i bob lleol ei fwynhau
- Defnyddio rhwydweithiau i greu cysylltiadau â thir agored yng nghefn gwlad a chysylltiadau â chyfleusterau, gwasanaethau, trafnidiaeth gyhoeddus hy fel rhan o fywyd bob dydd
- Cydnabod swyddogaethau gwahanol rwydweithiau seilwaith - tirwedd, bywyd gwyllt, symudiadau, hamdden, amwynder etc
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu, pan fo angen, at y gwaith o gynnal / gwella'r rhwydweithiau presennol neu o greu cysylltiadau coll
- Diogelu treftadaeth adeiledig sydd dan fygythiad a rheoli newidiadau yn yr amgylchedd hanesyddol mewn ffordd sensitif

C18 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

5.19 Hyrwyddo cynllunio da sy'n benodol i'r ardal leol, yn arloesol ac yn gydnaws â'r lleoliad

Materion ac ystyriaethau:

- Nodi a gwerthfawrogi cymeriad ein haneddiadau - cynllun, ffurf , defnyddiau etc
- Sicrhau bod cymeriad brodorol neu nodweddion lleol unigryw yn cael eu cynnwys mewn datblygiadau newydd
- Defnyddio egwyddorion a pholisïau cynllunio i gydnabod nodweddion lleol unigryw heb gyfyngu ar waith dylunio arloesol

C19 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?



5.20 Hybu'r gwaith o ddiogelu adnoddau naturiol, fel dŵr, a'u defnyddio'n gynaliadwy a hyrwyddo datblygiadau ar dir llwyd.

Materion ac ystyriaethau:


- Cefnogaeth gyffredinol i ynni adnewyddadwy i geisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- Nodi'r posibilïadau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y Sir – gwynt, solar
- A yw'r Cynllun yn gosod targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy ac a ddylai wneud hynny
- Diogelu mwynau sydd â phwysigrwydd economaidd ac ystyried a ddylid mireinio ymhellach y dynodiad diogelu mwynau yn y CDU
- Adolygu a yw clustogfeydd mwynau'r CDU yn dal yn addas i'r diben
- Sicrhau bod cyflenwad cynaliadwy o fwynau dros oes y Cynllun ac asesu a oes digon o fwynau wrth gefn neu a fydd angen creu safleoedd newydd neu ymestyn safleoedd presennol i sicrhau bod digon o agregau a chreigiau caled ar gael.
- Diogelu tir amaethyddol
- Diogelu ansawdd dŵr a chyflenwadau dŵr

C20 A ydych yn cytuno â'r materion a nodwyd o dan y pennawd hwn? Os ydych yn anghytuno, sut a pham y dylid eu newid, yn eich barn chi?

6 Amcanion y Cynllun

6.1 Datblygwyd cyfres o amcanion strategol ar sail gweledigaeth y Cynllun a'r materion y mae angen i'r Cynllun mdrin â nhw. Nod yr amcanion hyn yw dwyn yr amrywiaeth eang o faterion ac ystyriaethau ynghyd a nodi'r hyn y mae'r Cynllun yn ceisio'i gyflawni. Gall yr amcanion hyn hefyd fod yn sail i'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Cynllun. Wrth ddatblygu'r amcanion, fe'u trefnwyd eto'n ôl y tair thema'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy. Dyma'r amcanion:

Cyfoethogi bywyd cymunedol	
1.	Sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau'n gallu manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau, fel addysg ac iechyd, i ganiatáu i fywyd cymunedol ffynnu, ac i ddiwallu anghenion grwpiau penodol, fel yr henoed.
2.	Hybu cynlluniau i ddatblygu canol trefi a chanolfannau rhanbarthol fel rhan gabnolog o raglenni adfywio
3.	Hybu system drafnidiaeth gynaliadwy a diogel sy'n golygu nad yw pobl yn dibynnu cymaint ar y car
4.	Hwyluso'r system drafnidiaeth angenrheidiol, y seilwaith cyfleustodau a'r seilwaith cymdeithasol/ cymunedol
5.	Hwyluso cynlluniau i reoli gwastraff yn gynaliadwy
6.	Diogelu a hybu'r Gymraeg
7.	Creu lleoedd sy'n ddiogel, yn hygyrch ac sy'n hybu iechyd, lles a chydaddoldeb
Sicrhau twf a ffyniant	
8.	Hwyluso twf ac amrywiaeth yn yr economi leol a chreu rhagor o swyddi gwerth uchel i weithwyr medrus yn y sectorau allweddol
9.	Hybu datblygiadau sy'n golygu bod Sir y Fflint yn lle cystadleuol yn economaidd, ac yn sbarduno twf economaidd yr isranbarth
10.	Ailddiffinio rôl a swyddogaeth canol trefi Sir y Fflint fel cyrchfannau llewyrchus o safbwynt siopa, hamdden, diwylliant, addysg, busnes a thrafnidiaeth
11.	Sicrhau bod gan Sir y Fflint ddigon o dai, o'r maint a'r math priodol, i hybu datblygu economaidd ac i ddiwallu amrywiaeth o anghenion tai
12.	Sicrhau bod datblygiadau tai'n mynd rhagddynt mewn lleoliadau cynaliadwy, ar safleoedd dichonadwy a bod y seilwaith cymdeithasol, amgylchedd a ffisegol angenrheidiol ar gael i'w cynnal
13.	Hyrwyddo a gwella economi wledig amrywiol a chynaliadwy
14.	Hybu datblygiadau twristiaeth gynaliadwy
Diogelu'r amgylchedd	
15.	Lleihau'r ffactorau sy'n achosi ac yn effeithio ar y newid yn yr hinsawdd a llygredd
16.	Diogelu a gwella asedau amgylcheddol gorau Sir y Fflint gan gynnwys ei thirwedd, ei threftadaeth ddiwylliannol a'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig
17.	Cynnal a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd
18.	Hyrwyddo cynllunio da sy'n benodol i'r ardal leol, yn arloesol ac yn gydnaws â'r lleoliad
19.	Hybu'r gwaith o ddiogelu adnoddau naturiol, fel dŵr, a'u defnyddio'n gynaliadwy a hyrwyddo datblygiadau ar dir llwyd
C21 A ydych yn cytuno â'r amcanion uchod? Os nad ydych yn cytuno, sut a pham y dylid eu newid?	





7 Symud ymlaen

7.1 Mae angen ystyried gweledigaeth y Cynllun, y materion a'r amcanion ochr yn ochr â'r sail dystiolaeth sy'n datblygu a hynny er mwyn dechrau'r broses o ddatblygu Strategaeth y Cynllun a fydd yn nodi maint y twf, dosbarthiad gofodol y twf hwnnw, y polisiau strategol a'r cynigion. Ar y cyd â hyn, mae angen adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r CDU.

7.2 Dyma grynodedb o'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg ar hyd o bryd:

- *Ystyrir bod y Sir yn sbarduno twf economaidd yn is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru - ochr yn ochr ag is-economi Gorllewin Swydd Caer a Chaer, fel y gwelwyd pan ddynodwyd rhan o'r Sir yn Ardal Fenter*
- *Dylid defnyddio'r amcanion cyflogaeth a datblygu economaidd ar gyfer y Sir i ddynodi datblygiadau tai ategol a'u rhoi ar waith*
- *Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru (2011) yng nghyswllt gofynion tai yn rhy isel gan eu bod wedi'u seilio at gyfnod o gynt economaidd a dylid eu defnyddio fel man cychwyn yn unig, ynghyd â nifer o ystyriaethau eraill*
- *A ddylai, ac i ba raddau y dylai, nifer y tai na lwyddwyd i'w codi yn ystod oes y CDU gyfrannu at y ffigur gofynion tai newydd*
- *Mae'r Sir, ar y cyd â Wrecsam, yn ffurfio ardal marchnad dai leol hunangynhwysol. Er bod symudiadau allweddol rhwng gogledd-ddwyrain y Sir a Chaer (a gaiff hefyd ei chydabod yn ardal marchnad dai leol hunangynhwysol sy'n gallu diwallu ei anghenion tai ei hun yn ôl Adroddiad yr Arolygwr ar y Cynllun Lleol – Rhan Un) mae angen i'r Cynllun fedru darparu ar gyfer ei anghenion tai ei hun i raddau helaeth*
- *Mae Cynllun Gofodol Cymru yn nodi triongl o dwf sy'n cynnwys Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Chaer*
- *Mae gan y Sir nifer o drefi marchnad ac ardal drefol fwy sy'n cynnwys aneddiadau Glannau Dyfrdwy a chefnwlad ehangach*
- *Mae gan y Sir ardaloedd helaeth o dir llwyd ond mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd hyn ger Afon Dyfrdwy ac Aber Afon Dyfrdwy, mewn ardaloedd lle mae llifogydd yn debygol a / neu ardaloedd pwysig o safbwynt gwarchod natur*
- *Mae gan y Sir amrywiaeth o gyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol ar ffurf AHNE, Aber Afon Dyfrdwy ac ardaloedd lle mae llifogydd yn debygol*
- *Mae gan y Sir boblogaeth sy'n heneiddio ac sydd ag anghenion tai penodol ac angen parhaus i ddarparu tai fforddiadwy, a goblygiadau y duedd hon yn y tymor hir o ran medru sicrhau bod gweithlu medrus ar gael i ddiwallu anghenion cyflogwyr modern*
- *Yr angen i asesu sylwadau Arolygwr y CDU a oedd o'r farn nad oedd diffinio ffiniau aneddiadau ar sail aneddiadau unigol yn hytrach na nodi ardaloedd trefol yn flaengar iawn ac roedd hefyd o'r farn mai buan iawn y bydd angen cynnal adolygiad sylfaenol o gefn gwlad agored a rhwystrau glas mewn rhannau o'r Sir.*
- *Yr angen i ddatblygiadau newydd fod mewn lleoliadau cynaliadwy a'u bod yn arwain at gynlluhniau hanfodol i wella'r seilwaith*
- *Yr angen i safleoedd tai fod yn ddichonadwy o ran eu gallu i gyfrannu at y cyflenwad tir ar gyfer tai ac amcanion eraill y Cynllun.*

- ***Yr angen i ddatblygu rhywfaint mewn cymunedau gwledig i helpu i gynnal gwasanaethau***

C22 A ydych yn cytuno y dylid ystyried y crynodeb uchod o'r negeseuon allweddol wrth baratoi Strategaeth y CDLI? Os nad ydych yn cytuno, sut a pham y dylid eu newid?



8 Categoriadau aneddiadau

8.1 Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar nifer o bosibiliadau o ran twf a datblygiad gofodol a bydd y gwaith hwn, yn ei dro, yn sail i'r Strategaeth a Ffeirir ar gyfer y CDLI. Cyn cyrraedd y cam hwn, mae angen ystyried sut y caiff y CDLI ei ddatblygu o ran diffinio categorïau'r aneddiadau neu eu grwpio neu eu gosod mewn trefn yn ôl cymeriad, maint, rôl, swyddogaeth a chynaliadwyedd.

Arolygu aneddiadau

8.2 Mae pob un o'r aneddiadau a nodwyd yn y CDU, yn ogystal ag aneddiadau posibl eraill, wedi'u hasesu o ran eu gwasanaethau a'u cyfleusterau ynghyd ag o ran eu maint, poblogaeth a chymeriad ac o ran a ydynt yn aneddiadau y gellir eu diffinio'n glir. Diben yr astudiaeth hon yw cynnal asesiad cadarn o gynaliadwyedd aneddiadau a chreu sail dystiolaeth i'w defnyddio i benderfynu a yw hierarchaeth aneddiadau'r CDU yn dal yn addas i'r diben, ac i ddatblygu ac asesu dulliau eraill o'u categorïddio. Yn Atodiad 1, mae papur trafod sy'n esbonio'r broses o asesu gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau. Defnyddiwyd y canlyniadau i greu set sylfaenol o fandiau. Gellir gweld Adroddiad Arolygu

gyfer pob un o'r aneddiadau a aseswyd ar wefan y Cyngor. Mae'r rhain yn rhoi asesiad a sylwebaeth gryno ar bob anheddiad.

8.3 Yn y CDU, rhannwyd aneddiadau i greu hierarchaeth tair haen, sef categori A (trefol), categori B (lled drefol - prif bentrefi) a chategori C (pentrefi bach). Mae'r Astudiaeth yn nodi bod yr aneddiadau categori B ac C yn amrywio'n arw o ran maint, rôl a chymeriad. Mae amrywiaeth hefyd yn aneddiadau categori A sy'n cynnwys yr Wyddgrug, y Fflint, Bwcle a Threffynnon, sy'n amlwg yn drefi, a Chei Connah, Queensferry a Shotton / Aston sydd i'w gweld yn ffurfio rhan o ardal drefol ehangach, yn hytrach na'u bod yn drefi penodol. Mae'r Astudiaeth hefyd yn nodi bod nifer o aneddiadau'n rhannu cyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal ag aneddiadau llai sy'n gallu defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau'r trefi mwy. Wrth edrych ar ffiniau'r aneddiadau yn y CDU, mae cryn ddryswch ynghylch lle mae un anheddiad yn dechrau a'r llall yn gorffen.

C23 A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y gwaith o arolygu'r aneddiadau yn yr Adroddiadau Archwilio?




Catgoreiddio'r aneddiadau – y dewisiadau

8.4 Mae asesiadau'r arolwg wedi creu sail dystiolaeth dda ar gyfer pob un o'r aneddiadau ac wedi creu fframwaith i'w ddefnyddio i ystyried sut y gellid catgoreiddio aneddiadau yn y CDLI. Cynhaliwyd astudiaeth wahanol felly i ystyried y dulliau a ddefnyddiwyd yn y CDU ac mae'n nodi nifer o ddulliau gwahanol y gellid eu defnyddio, fel y gwelir yn Atodiad 2, a manteision ac anfanteision bob un. Nid yw'r Astudiaeth yn argymhell unrhyw ddull penodol, ond mae'n gofyn am sylwadau er mwyn i'r Cyngor fedru dewis y dull gorau o gategoreiddio aneddiadau a datblygu dewisiadau gofodol h.y. sut y gellir rhannu'r twf arfaethedig rhwng yr aneddiadau. Dyma'r dulliau gwahanol a nodir yn yr Astudiaeth:


- Dewis 1. Dim newid - parhau â hierarchaeth y CDU fel y mae
- Dewis 1a. Yr un dull â dewis 1 ond newid yr hierarchaeth yn ôl cynaliadwyedd
- Dewis 2. Ehangu'r tri chategori yn y CDU i greu 5 haen, a chategoreiddio aneddiadau yn ôl cynaliadwyedd
- Dewis 2a. Yr un dull â dewis 2 uchod ond symud rhai aneddiadau i gategori arall os ydynt yn agos at aneddiadau ar lefel uwch ac os oes cysylltiad swyddogaethol rhyngddynt
- Dewis 3. Dull newydd o gategoreiddio aneddiadau yn y CDLI drwy eu rhannu'n aneddiadau mewn ardal drefol neu wledig
- Dewis 4. Dull cymysg sy'n cyfuno'r 'ardaloedd trefol' a ddiffinnir yn Dewis 2 â'r tri band isaf yn Dewis 2a

C24 A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Astudiaeth Categoriadau Aneiddiadau yn Atodiad 2?

C25 Yn eich barn chi, a yw'r modd yr ymdrinnir â'r hierarchaeth aneiddiadau ar gyfer y CDU yn dal yn addas i'r diben? Esboniwch




C26 A fyddai'n well gennych pe bai un o'r dulliau eraill yn cael ei ddefnyddio. Os felly, pa ddull yw hwnnw a pham?



C27 Yn eich barn chi, a oes dulliau mwy cynaliadwy o gategoreiddio aneddiadau na'r rhai a amlinellir yn Atodiad 2. Os felly, esboniwch

A large, empty rectangular box with a thin black border, occupying the lower half of the page. It is intended for a response to the question above.



9 Y camau nesaf

9.1 Mae'n bwysig i'r Cyngor bod y Cynllun yn datblygu gam wrth gam gan roi cyfle i'r rhai sydd â diddordeb ynddo gynnig sylwadau a chyfrannu, a hynny drwy gyfrwng proses ymgysylltu ac ymgynghori. Drwy hyn, dylai bod modd sicrhau consensws wrth i'r Cynllun ddatblygu. Cyn i'r Cyngor ddechrau ymgysylltu'n ffurfiol ynghylch yr opsiynau twf a'r opsiynau gofodol, ystyri'r ei bod yn bwysig bod y rhai sydd â diddordeb yn ymwybodol o'r weledigaeth, y materion a'r amcanion drafft gan mai'r rhain fydd yn sail i'r hyn y bydd y Cynllun yn ceisio'i gyflawni, a dylid rhoi cyfle iddynt roi sylwadau ar y rhain. Mae'n bwysig hefyd ystyried rhai o'r negeseuon allweddol sy'n codi o'r gwaith a wnaed hyn yma ac i gael sylwadau arnynt. Dylai hyn roi arweiniad clir i'r Cyngor wrth iddo'i fwrw ymlaen â'r camau nesaf yn broses, gan osgoi'r angen iddo edrych yn ôl at y camau blaenorol a rhag iddo gyflwyno 'darn o waith gorffenedig' gerbron pobl.

